

Crynodeb Gweithredol

Gan adlewyrchu nod y Cynllun o greu cymunedau cynaliadwy gwydn, pwrpas yr arfarniad hwn yw nodi'r aneddiadau hynny a allai fod yn addas i ddarparu ar gyfer twf tai a chyflogaeth yn y dyfodol o ran eu lleoliad, eu rôl a'u swyddogaeth. Mae hyn yn cynnwys asesiad o rôl a swyddogaeth gyfredol aneddiadau, ynghyd â dealltwriaeth o'r perthnasoedd rhwng aneddiadau a'u rolau posibl yn y dyfodol.

- I. Dyfodol Cymru – Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod y cyfeiriad at ddatblygu yn y dyfodol yng Nghymru hyd at 2040. Mae Dyfodol Cymru 2040 yn amlinellu'r weledigaeth ganlynol ar gyfer Cymru Wledig. 'Mewn ardaloedd gwledig, cefnogir cyfleoedd gwaith a gwasanaethau cymunedol i helpu i ddenu a chadw pobl. Fe welir cydbwysedd rhwng datblygu a chadw cymeriad cefn gwlad Cymru, gan sicrhau bod gan ein trefi a'n pentrefi bach ddyfodol disglair fel lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Bydd yr economi wledig yn ffynnu a bydd cymunedau â chysylltiad da yn ddigidol ac yn ffisegol'.
- II. Mae Dyfodol Cymru 2040 yn nodi bod nifer o drefi a phentrefi gwledig Cymru yn hanfodol i'w hardaloedd cyfagos. Nodweddir aneddiadau gwledig ffyniannus, gwydn a chynaliadwy gan gymysgedd gyfoethog o dai, cyflogaeth, gwasanaethau, ac isadeiledd, wedi'u lleoli yn y mannau cywir i ddiwallu anghenion a dyheadau'r boblogaeth i'r dyfodol. Mae'n mynd rhagddo i ddangos bod COVID-19 wedi dangos pa mor bwysig yw cyfleusterau o'r fath, a'r modd maent yn gymorth i wneud cymunedau gwledig yn wydn.
- III. Mae'r arfarniad wedi dadansoddi swm enfawr o wybodaeth er mwyn helpu i benderfynu rôl a swyddogaeth aneddiadau o fewn y Sir ac mae'n adeiladau ar y gwaith yr ymgwymerwyd ag ef ar gyfer Astudiaeth Swyddogaeth a Hierarchaeth Aneddiadau (Hydref 2008) a drwythodd yr hierarchaeth aneddiadau ar gyfer y CDLI a fabwysiadwyd.
- IV. 1v. Gwnaed y gwaith gan ddefnyddio system sgorio yn erbyn tair egwyddor, yn seiliedig ar fethodoleg ranbarthol Canllawiau Cynllunio Atodol De Ddwyrain Cymru, gyda rhai addasiadau er mwyn sicrhau system sgorio leol berthnasol. Y tair egwyddor sylfaenol a ddefnyddir i ddadansoddi pob anheddiad yw:
 - Egwyddor 1 - Lefel y drafnidiaeth gynaliadwy a'r hygyrchedd o fewn ac o gwmpas aneddiadau
 - Egwyddor2 – Argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau lleol o fewn ac o gwmpas aneddiadau
 - Egwyddor 3 – Lefel y cyfleoedd cyflogaeth o fewn ac o gwmpas aneddiadau
- V. Mae ystyried pob un o'r tair egwyddor hyn ynghyd â maint poblogaeth yr anheddiad, wedi cynorthwyo'r broses o nodi hierarchaeth anheddiad yn seiliedig ar yr asesiad meintiol hwn a gellir ei defnyddio fel rhan o'r dystiolaeth Sylfaen i lywio penderfyniadau ynghylch lle dylid lleoli datblygiad yn ofodol mewn perthynas ag aneddiadau presennol er mwyn cyflawni patrwm twf cynaliadwy.

- VI. I ategu'r arfarniad mae'r dadansoddiad hefyd wedi nodi clystyrau daearyddol eang o aneddiadau. Mae PCC (para 3.40) yn nodi *"Dylai canolfannau gwasanaeth lleol, neu glystyrau o aneddiadau llai lle gellir dangos cysylltiad swyddogaethol cynaliadwy, gael eu dynodi gan awdurdodau lleol fel y lleoliadau a ffefrir ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd gan gynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth."* Mae'r dadansoddiad clwstwr yn cydnabod y rôl a'r swyddogaeth mae aneddiadau llai yn eu chwarae o fewn y Sir.
- VII. Mae'r arfarniad yn cadarnhau rôl ddominyddol trefi Sirol Y Fenni, Cas-gwent, Cil-y-coed a Threfynwy. Mae'r pedair tref yn sgorio'n uchel yn erbyn y tair egwyddor gan atgyfnerthu'u swyddogaeth fel canolfannau gwasanaeth ar gyfer eu cefnwlad wledig. Mae Trefynwy, o ganlyniad i ddifffyg gorsaf reilffordd o fewn y dref a'r pellter cymharol i gael mynediad i'r orsaf reilffordd agosaf, yn cyflawni sgôr is ar gyfer egwyddor 1 na'r trefi eraill. Fodd bynnag, mae'n cyflawni sgôr cymharol uchel yn erbyn dwy egwyddor arall. Mae dros hanner poblogaeth y Sir yn bwy o fewn un o'r aneddiadau hyn, gan elwa o'u hygyrchedd a'r ystod o wasanaethau a'r cyfleusterau maent yn eu cynnig. Mae hunangynhwysiad cymharol yr aneddiadau hyn o gymharu ag aneddiadau eraill o fewn y Sir yn cyfiawnhau'u dosbarthiad fel Prif Aneddiadau y gellir eu cynnal a'u cadarnhau drwy ddatblygu cynaliadwy yn y dyfodol.
- VIII. Yn ychwanegol at y pedwar Prif Anheddiad mae dau anheddiad arall, Magwyr Gwndy a Brynbuga, sydd hefyd yn perfformio'n dda, gan gyfiawnhau'u safle fel Aneddiadau Eilaidd. Tra nad ydynt â'r ystod lawn o gyfleusterau a gynigir gan y Prif Aneddiadau, maent yn darparu gwasanaethau y bydd eu trigolion a'r gefnwlad wledig yn elwa ohonynt, a Magwyr Gwndy yn benodol yn elwa o'i lleoliad yng nghoridor yr M4 a'i hagosrwydd at ddulliau trafniadaeth gynaliadwy ac i Gasnewydd.
- IX. Y tu allan i'r ddau anheddiad hyn mae grŵp penodol o Aneddiadau Eilaidd eraill. O'r rhain, Llan-ffwyst a Rogiet yw'r aneddiadau sy'n sgorio uchaf, a Chaerwent, Rhaglan a Phenperlleni hefyd yn perfformio'n dda yn nhermau'r arfarniad. Rhagwelir, tra nad yw'r Aneddiadau Eilaidd hyn yn cynnig yr ystod lawn o wasanaethau a chyfleusterau y gellir eu gweld yn y Prif Aneddiadau byddent yn gallu cefnogi peth twf cynaliadwy ychwanegol. Dylai graddfa'r datblygiadau a gynllunnir ar gyfer y dyfodol adlewyrchu'u rôl unigol, eu swyddogaeth a'u maint, gan gydnabod bod yr aneddiadau hyn yn gyfredol yn darparu gwasanaethau /cyfleusterau lleol i gwrdd ag anghenion eu hardaloedd cyfagos.
- X. Mae'r dadansoddiad clwstwr yn cydnabod bod gan rai o'r aneddiadau haen isaf yn yr arfarniad berthynas ddaearyddol a swyddogaethol ag anheddiad Haen 1 yn y matrices ac felly, er eu bod yn cyflawni sgoriau is, efallai y gallent gefnogi rhywfaint o ddatblygiad ychwanegol yn y dyfodol. Mae'r aneddiadau ar hyd coridor yr M4 yn arbennig yn dangos perthnasoedd daearyddol a swyddogaethol cryf gyda'i gilydd a chyda'r aneddiadau mwy yn y cyffiniau. Mae'r clwstwr hwn nid yn unig yn cynnwys Prif Anheddiad Haen 1 Cil-y-coed ond mae hefyd yn cynnwys tri Anheddiad Eilaidd Haen 2 Magwyr Gwndy, Rogiet a Chaerwent. Ystyrir, ar ôl Prif Aneddiadau'r Fenni, Cas-gwent a Threfynwy, bod clwstwr Glan Hafren gyda'i gysylltiadau trafniadaeth da, cyfleoedd cyflogaeth ac ystod o wasanaethau yn cynnig y lleoliad mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf yn y dyfodol.
- XI. Y tu allan i'r Prif Aneddiadau, yr Aneddiadau Eilaidd a Glan Hafren, mae aneddiadau eraill yn y matrices a fydd hefyd yn darparu cyfleoedd atodol ar gyfer datblygu cynaliadwy; eto dylai graddfa'r datblygiad adlewyrchu eu rolau, eu swyddogaethau a'u maint unigol. Cydnabyddir,

fel y nodir yn y polisi cynllunio cenedlaethol (PCC11), y gallai lefelau datblygu priodol helpu i gynnal hyfywedd yr aneddiadau hyn trwy ddarparu mwy o arfer ar gyfer busnesau lleol a hefyd galluogi cyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fechan i helpu i gynnal eu poblogaethau a denu demograffeg fwy cytbwys.

- XII. Rhoddir yr hierarchaeth aneddiadau arfaethedig ar gyfer y CDLIA isod, bydd hyn yn destun gwelliant pellach wrth i'r Cynllun fynd yn ei flaen.

Prif Aneddiadau

Y Fenni (gan gynnwys Llan-ffwyst)

Cas-gwent

Trefynwy (gan gynnwys Wyesham)

Glan Hafren

Cil-y-coed

Caerwent

Crug

Magwyr Gwndy

Porthsgiwed

Rogiet

Sudbrook

Aneddiadau Eilaidd

Penperlleni

Rhaglan

Brynbuga

Prif Aneddiadau Gwledig

Devauden

Dingestow

Melin Fechan

Llandogo

Llanellen

Llangybi

Llanisien

Llanofer

Llanvair Discoed

Llanvapley

Matharn

Penallt

Pwllmeyric

Shirenewton Mynydd bach

St Arvans

The North

Tindyrn

Trellech

Werngifford Pandy

Aneddiadau Gwledig Llai

Bettws Newydd

Broadstone/Catbrook

Brynygwenin

Coed y Paen

Cross Ash

Cuckoo's Row

Great Oak

Grysmwnt

Gwehelog

Llandegveth

Llandenny

Llangwm

Llansoy

Llantilio Crossenny

Llantrisant

Llanvair Kilgeddin

Mitchel Troy

Penpergwm

Llanarth
Llanddewi Rhydderch

The Bryn
Tredunnock